# Bwletin lles Tymor y Gwanwyn 2024 / 2024 Spring Term Welfare Bulletin

**Blwyddyn Newydd Dda!**

Mae'n ddechrau cyffrous i ddisgyblion Ysgol Uwchradd Bodedern ar gyfer y flwyddyn newydd wrth i ni barhau i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru, cryfhau cysylltiadau gydag Ysgol St.David's yn yr Iwerddon a pharhau efo'n gwaith lles i gefnogi disgyblion. Mae'r tîm lles am ffocysu ar dair blaenoriaeth y tymor hwn; presenoldeb, diogelwch a lles ein disgyblion.

**Presenoldeb**

Fel nodwyd yng nghylchlythyr y Pennaeth cyn y Nadolig, mae presenoldeb yn flaenoriaeth i bob disgybl yng Nghymru. Ein targed ar gyfer eich plentyn yw presenoldeb llawn, ond rydym yn deall fod salwch yn medru cael effaith ar bresenoldeb, yn arbennig yn ystod y gaeaf. Gofynnir i rieni a gofalwyr gydweithio gyda'r ysgol drwy gysylltu ar fore cyntaf salwch eich plentyn drwy ffônio, anfon tecst neu e-bost gan nodi rheswm dros yr absenoldeb a dyddiad dychwelyd eich plentyn os yn bosib. Mae croeso i chi ffonio pennaeth blwyddyn eich plentyn i drafod unrhyw bryderon. Mae manylion penaethiaid blwyddyn eich plentyn ar ein gwefan.

**Diogelwch**

Mae diogelwch eich plentyn yn flaenoriaeth i'r ysgol. Cofiwch ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb i gadw ein disgyblion yn ddiogel yn ein cymunedau. Dros y Nadolig mae'n debyg bod rhoddion o ddyfeisiau eletroneg a ffonau symudol wedi bod yn anrhegion poblogaidd iawn i ddisgyblion Boded. Mae'n bwysig i ni gadw ein plant yn ddiogel ar-lein. I helpu, mae prif ddarparwyr y wê i gartrefi wedi cyd-weithio i greu adnodd gwych i gynghori rhieni a gofalwyr ar sut i gadw eu plant yn ddiogel ar-lein www.internetmatters.org Mae'n llawn gwybodaeth am sut i ddelio gyda bwlio ar-lein i sgamio. Fel ysgol, rydym yn gofyn i ddisgyblion **beidio** defnyddio eu ffonau mewn gwersi nag ar y coridorau.

**Lles**

Mae addysgu disgyblion am les yn cael ei gynllunio'n ofalus i anghenion iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol ein disgyblion. Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi cyrraedd y brig ac wedi ennill y wobr ansawdd ysgolion iach uchaf. Byddwn yn parhau i lunio darpariaeth gydag asiantaethau allanol gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol.

**Happy New Year!**

It is an exciting start of the new year for Ysgol Uwchradd Bodedern pupils, as we continue to deliver the new curriculum for Wales, strengthen connections with St David's school in Ireland and continue with our work to deliver welfare experiences to our pupils. The welfare team will be focusing on 3 priorities this term; attendance, safety and welfare of our pupils.

**Attendance**

Following the head teachers Christmas newsletter, Attendance is a priority for every pupil in Wales. Our target is full attendance for all our pupils, but we understand that sometimes illness can get the better of anyone, especially during the winter months. We ask that parents and carers work with the school by contacting us on the first day of your child's absence by phoning, send a text or e-mail, sharing the reason for the absence and the return date if possible. You are more than welcome to contact your child's head of year to discuss any concerns. Your child's head of year's details are available on our website.

**Safety**

Your child's safety is our priority as a school, it is everyone's responsibility to keep our pupils safe in our community. Over Christmas, many pupils may have had electronic devices and mobile phones as presents. It's important that we can keep our children safe online. To help, all the major internet companies have come together to create an excellent online resource on how to keep our children safe for parents and carers: www.internetmatters.org The resource has information on how to deal with online bullying to scamming. As a school, we ask that pupils **do not** use their phones in lessons or on the corridors.

**Welfare**

Educating pupils regarding their welfare is important to us so that pupils develop their emotional, mental and physical health. Recently the school has won the top accolade for the healthy school scheme's quality assurance. We will continue to offer welfare opportunities by working alongside external agencies, including the local health board.